



Polisi Gwaith Cartref

Rhagair

Nae'r polisi hwn yn cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref yn Ysgol Llanbedrog. Gobeithir, trwy gydweithrediad rhieni, y bydd y gwaith cartref yn helpu i godi safonau addysgol a chyfoethogi'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn rhoi blas i rieni o'r gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn y dosbarth.

Yr angen am waith cartref

- Mae gwaith cartref yn fodd o sicrhau fod y plant yn meithrin hyder i weithio y tu allan i sefyllfa'r ystafell ddosbarth/ysgol.
- Yn aml atgyfnerthir y gwaith dosbarth gan y gwaith cartref.
- Mae'n gyfle i rieni gymeryd rhan weithredol yn addysg y plant.
- Mae'n fodd o ehangu cwricwlwm y plant.

Gosod gwaith cartref

Bydd diwrnod gosod gwaith cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth yn ôl barn yr athro a digwyddiadau'r wythnos.

Dychwelyd gwaith cartref

Bydd diwrnod pendodl yn cael ei osod ar gyfer dychwelyd y gwaith cartref a disgwylir i bob plentyn gadw at y diwrnod hwn. Mae'r athrawon yn gofalu bod digon o amser yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith. Os yw gwaith cartref yn hwyr dylai'r plentyn ddod â nodyn i egluro'r rheswm am hyn. Rhaid i'r rheswm fod yn un dilyd. Cedwir cofnod yn yr ysgol.

Ymateb i waith cartref

Mae ymateb yr athrawon i waith cartref yn amrywio yn ôl y math o waith a osodir, e.e
Prawf sillafu, tablau ayyb
Marcio gwaith ysgrifenedig
Trafodaeth ar y wybodaeth a gasglwyd

Safon y gwaith cartref

Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob plentyn. Ni fydd gwaith blêr a brysiog yn cael ei dderbyn. Gall athro ofyn i blentyn ail-wneud y gwaith nes bod y safon yn dderbyniol.

Rhieni

Disgwylir i rieni roi pob cynhaliad i'r plant, a'u hannog i wneud y gwaith gorau posibl. Dylid sicrhau mai gwaith y plant sydd yn cael ei gyflawni ond mae'n bwysig fod rhieni yn eu cefnogi fel bo'r angen. Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os cyfyd unrhyw anhawsterau.

Athrawon

Bydd yr athrawon yn sicrhau bod y gwaith yn amrywiol, o fewn gallu'r plant ond eto'n ymestynnol ac yn ddiddorol.

Mabwysiadu: Tymor y Gwanwyn 2014

Cadeirydd: _____

Pennaeth: _____

Dyddiad: _____

I'w adolygu _____